



POLISI CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL YSGOL BRO PLENYDD

Mae'n ddyletswydd ar bob corff llywodraethol lunio polisi sy'n nodi'n glir safbwynt yr ysgol am godi tâl am weithgareddau addysgol.

Yn gyffredinol, ni chodir tâl am weithgareddau addysgol yn unol â gofynion Deddf Diwygio Addysg 1985. Er bod cronfa gan yr ysgol, yn ogystal â chyllideb flynyddol a ddefnyddir er lles a dibenion y plant yn addysgol mae'r corff yn teimlo ei bod yn rheidrwydd i'r ysgol ofyn am gyfraniadau gan rieni i alluogi'r ysgol gynnig a chynnal rhai gweithgareddau.

Penderfynwyd codi tâl fel a ganlyn:

gwersi offerynnol

derbynnir cyllid yn flynyddol gan yr Awdurdod Addysg Lleol i alluogi'r ysgol archebu gwersi offerynnol. Yn anffodus, nid yw'r cyllid hwn, ynddo'i hun, yn ddigon i alluogi'r ysgol archebu digon o oriau yn flynyddol ar gyfer y gwersi. Felly, mae'n rheidrwydd arnom i ofyn am gyfraniad gan rieni i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn gwर्स o hyd dderbyniol yn wythnosol. Penderfynodd y corff llywodraethol ar gyfraniad o £25.00 y tymor.

Gwersi Nofio

Derbynnir cyllid yn flynyddol gan yr Awdurdod Addysg Lleol i alluogi'r ysgol archebu gwersi nofio ar gyfer plant CA2 yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, bydd angen i'r ysgol archebu trafndiaeth yn wythnosol i gludo'r plant i'r Ganolfan Hamdden ym Mhwlheli ar gyfer eu gwर्स ac i'w cludo drachefn i'r ysgol.

Ni fyddai'n bosibl i'r ysgol archebu trafndiaeth na, felly, cynnig gwersi nofio oni bai fod y rhieni yn talu cost trafndiaeth eu plentyn.

Bydd y gost yn cael ei gyfrifo fesul tymor ac yn ddibynnol ar nifer y gwersi/plant fydd yn derbyn gwर्स a phris llogi bws am y tymor.

Ymweliadau Addysgol

Bydd yr ysgol yn trefnu nifer o ymweliadau addysgol a gweithgareddau sydd ynghlwm â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn a bydd yr ysgol yn ysgwyddo'r baich ariannol amdanynt.

Gwibdeithiau Blynyddol

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol bydd gwibdeithiau blynyddol yr ysgol yn cael eu trefnu ble bydd angen ystyried cost mynediad, yn ogystal â chost trafndiaeth. Ar adegau felly, nid oes gan yr ysgol ddewis ond gofyn am gyfraniad gan rieni at gostau'r ymweliad.

Mewn achosion o'r fath bydd yr ysgol yn ceisio cadw'r costau cyn ised ag sydd yn ymarferol bosibl.

Ymweliadau Eraill

Codir tâl am holl gostau bwyd a llety yn ystod ymweliadau preswyl.

Codir tâl am bob gweithgaredd sy'n digwydd tu allan i oriau'r ysgol ac/neu nad ydynt yn rhan o weithgareddau sydd ynghlwm â'r Cwricwlwm Cenedlaethol nac Addysg Grefyddol statudol, e.e. ymweliad â theatr.

Cedwir yr hawl i ddileu neu ohirio gweithgaredd y gofynnwyd am daliad gwirfoddol tuag ato os na all yr ysgol ei fforddio oherwydd nad oedd cyfanswm y cyfraniadau yn ddigonol.

Ni eithrir unrhyw blentyn o'r gweithgareddau ar sail anallu i gyfrannu'n wirfoddol.

Gwerthfawrogir y bydd anawsterau yn codi ymysg teuluoedd o bryd i'w gilydd a fydd yn ei gwneud hi yn anodd iddynt gyfrannu at gostau. Mewn achosion o'r fath bydd yr ysgol yn annog rhieni i gysylltu â'r ysgol i drafod y sefyllfa gan sicrhau cyfrinachedd llwyr.

Anfonir llythyr at rieni cyn bob ymweliad, gwibdaith, gweithgaredd neu berfformiad yn cyhoeddi trefniadau ac i'w hysbysu os oes cost neu beidio.

Yr ydym yn yr ysgol hon yn arbennig o ffodus bod gennym ers rhai blynyddoedd bellach Gymdeithas Rieni hynod o weithgar sydd drwy amrywiol weithgareddau yn codi symiau anrhydeddus o arian i'r ysgol yn flynyddol. Defnyddir rhan o'r arian yma yn flynyddol i:

- sybseiddio cost y cludiant i'r gwersi nofio
- sybseiddio cost cludiant a mynediad ar wibdaith flynyddol yr ysgol
- i dalu costau ymweliadau a gweithgareddau addysgol sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol statudol.

Rhoddir i'r Pennaeth yr hawl i benderfynu i ba raddau y defnyddir arian allan o gronfa'r ysgol i dalu am neu sybseiddio cost gweithgareddau.

Rhoddir i'r Pennaeth yr hawl i benderfynu ar achosion sy'n codi wrth weithredu y polisi hwn.

Casgliad

Mae'r polisi hwn yn datgan safbwynt pwysig gan yr ysgol. Gobeithir ysgafnhau'r baich ariannol ond, ar yr un pryd, ddiogelu'r cyfleoedd i bob plentyn allu elwa o holl weithgareddau ac ymweliadau yr ysgol.